# ***Cyngor Cymuned Llandyfriog.***

***Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar Nos Fawrth 11 o Fai 2022 dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Carol Davies***

***Yn Bresennol.***
Derrick Richards, Alan Davies, Ian James, Rhys ap Tegwyn, Carol Davies, Ann Jones, Ken Jones a Wyn Thomas.

***Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr***
Branwen Davies, Meinir Thomas a Sian Taylor.

***Cadarnnhawyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021.***
(c) Ken Jones (e) Ian James

***Etholwyd Swyddogion 2022/2023 fel a ganlyn.***

***Cadeirydd y Cynghorydd Ken Jones,*** (c) Wyn Thomas (e) Alan Davies.

***Is Gadeirydd Y Cynghorydd Ann Jones,*** (c) Derrick Richards , (e) Alan Davies.

***Adroddiad Ariannol.***
Cyflwynodd Mrs Gillian Davies y Trysorydd adroddiad am y flwyddyn a aeth heibio, sef yn diweddu ar ddiwedd Mawrth {.2021/2022.}

Cadarnhawyd yr Adroddiad gan y Cynghorwyr (c) Pawb (e) Pawb
Diolchwyd i Mrs Gillian Davies am yr adroddiad manwl yn ol yr arfer, gan y Cadeirydd.

***Unrhyw Fater Arall.***
Diolchodd y Cynghorydd Carol Davies i bawb am eu cymorth yn ystod y flwyddyn, hefyd cyfeiriodd at Mrs Anwen Evans y Clerc, a Mrs Gillian Davies y Trysorydd ,yn arbennig am y cydweithio hwylus arferol a gafwyd.

Diolchodd hefyd ir Cynghorydd Sir, Mr Wyn Thomas am ei gefnogaeth frwd yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd y Cynghorydd Sir, Mr Wyn Thomas hefyd ir Cadeirydd sef y Cynghorydd Carol Davies am ei gaith didwyll yn ystod y flwyddyn,a aeth heibio.

Trosglwyddwyd Gadwyn y Cyngor ir Cadeirydd newydd sef y Cynghorydd Ken Jones yn ol yr arfer gan y cyn Gadeirydd sef y Cynghorydd Carol Davies

Dymunwyd yn dda ir Cadeirydd Newydd am y flwyddyn 2022-2023 ganddo ac hefyd rhoddodd ddiolch ir Cynghorwyr oll am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Gyda hynny daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben..